At sylw:
**Y Cyng. Darren Price**
Cadeirydd Cyd-bwyllgor Partneriaeth

Gofynnwch am: Y Tîm Craffu
Rhif ffôn y Swyddfa Craffu: 01792 637256
e-bost: scrutiny@swansea.gov.uk
Dyddiad 16 Tachwedd 2023

Annwyl Gynghorydd Price

**Grŵp Cynghorwyr Craffu Partneriaeth – 23 Hydref 2023**

Hoffai'r Grŵp Cynghorwyr Craffu ddiolch i Andrew Owen, Pennaeth Ysgol Gyfun Gellifedw, a'r swyddogion a oedd yn cynrychioli Partneriaeth, Ian Altman (Swyddog Arweiniol), Helen Morgan Rees (Cyfarwyddwr Arweiniol), Dylan Williams (Arweinydd Strategol), a Cressy Morgan (Ymgynghorydd Strategol), am ddod i'n cyfarfod, am gyflwyno'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, ac am ateb ein cwestiynau. Ysgrifennaf atoch i gyfleu ein safbwyntiau o'r cyfarfod hwnnw.

Cytunodd y Grŵp Cynghorwyr, yn rhan o'i raglen waith, i edrych ar berfformiad pob un o flaenoriaethau Partneriaeth, felly rydym yn croesawu'r adroddiad diweddaru ar Flaenoriaeth 2: Ymgorffori egwyddorion a phrosesau sy'n sail i degwch addysgol ym mhob ysgol a lleoliad addysgol.

Clywsom mai nod hyn yw sicrhau nad yw amgylchiadau personol neu gymdeithasol yn rhwystr i gyflawni potensial addysgol, a bod bob ysgol a lleoliad yn anelu'n uchel ar gyfer pob dysgwr. Clywsom fod hyn yn cael ei gyflawni trwy:

i. Barhau i gefnogi ysgolion a lleoliadau addysgol i ddeall y modd i liniaru effaith tlodi ar ymgysylltiad, cyflawniad a chyrhaeddiad (gan gynnwys diogelu'r diwrnod ysgol rhag tlodi)
ii. Parhau i gefnogi ysgolion a lleoliadau addysgol i ddeall y modd i liniaru effaith trawma ar ymgysylltiad, cyflawniad a chyrhaeddiad (gan gynnwys gwaith ar ysgolion sy'n ystyriol o drawma)
iii. Gweithio gyda phartneriaid allweddol i ymgorffori dulliau cyffredinol seiliedig ar dystiolaeth i hyrwyddo iechyd a llesiant cadarnhaol.

Clywsom am y modd y mae ysgolion yn gweithio gyda Partneriaeth yn hyn o beth, ac yn arbennig o ran diogelu'r diwrnod ysgol rhag tlodi. Croesawyd Pennaeth Ysgol Gynradd Gellifedw, a amlinellodd rywfaint o'r gwaith y mae'r ysgol yn ei wneud mewn perthynas â lliniaru effeithiau tlodi ar ddisgyblion yn yr ysgol. Dywedodd wrthym fod y gwaith hwn wedi cael effaith ddramatig ar yr ysgol. Dywedodd fod yr ysgol bob amser wedi bod yn gynhwysol ond bod y gwaith diogelu rhag tlodi wedi ei helpu i ystyried hyn mewn ffordd fymryn yn wahanol, a hynny trwy edrych ar yr heriau y mae rhai disgyblion yn eu hwynebu bob dydd. Roedd o'r farn bod yr Archwiliad Diogelu Rhag Tlodi, a gynhaliwyd y llynedd, wedi bod yn brofiad buddiol a chadarnhaol i'r ysgol. Amlinellodd

rywfaint o'r gwaith sydd wedi bod yn mynd rhagddo oddi ar yr archwiliad mewn perthynas â diogelu rhag tlodi, er enghraifft, athrawon yn dod yn fwy ymwybodol o lawer o lesiant disgyblion, a sicrhau bod y wisg ysgol yn llawer llai rhagnodol ac felly'n fwy economaidd i'w phrynu.

Roedd gennym ddiddordeb mewn clywed am y modd y mae'r broses hon wedi helpu'r athrawon i ymdopi'n fwy effeithiol ag effeithiau tlodi ar ddisgyblion. At hynny, trafodwyd y modd y mae tlodi yn effeithio ar bresenoldeb yn yr ysgol, y modd y mae'r ysgol yn defnyddio ei grant datblygu disgyblion i gynorthwyo i wella effeithiau tlodi, a hefyd, yn fwy eang, pam nad yw rhai teuluoedd sydd, o bosibl, â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn derbyn y cynnig.

Roeddem yn edmygu'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn yr ysgol, a diolchwyd i'r Pennaeth am rannu ei daith â'r Grŵp Cynghorwyr.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Arweiniol ganlyniadau Cyd-bwyllgor Partneriaeth a gynhaliwyd ar 6 Hydref. Aeth y Swyddog Arweiniol ati hefyd i roi diweddariad i ni ar y proffil risg cyfredol – clywsom fod y proffil wedi newid fymryn i gyd-fynd â'r Cynllun Busnes newydd.

Rhoddodd y Swyddog Arweiniol adroddiad i ni yn rhoi trosolwg o'r cymorth cyfredol ar gyfer ysgolion mewn perthynas â Cwricwlwm i Gymru. Clywsom fod pob lleoliad cynradd a hanner y lleoliadau uwchradd wedi mabwysiadu Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022, ac fe'n calonogwyd i glywed bod pob ysgol arall wedi ei fabwysiadu ym mis Medi 2023. Roedd yr adroddiad yn amlinellu gofynion y cwricwlwm, heriau o ran cynnydd ac asesu, gweithio mewn clwstwr, a'r cymorth i ysgolion.

Clywsom gan yr ymgynghorydd Strategol fod Partneriaeth yn cynyddu ei rôl, gyda swyddog clwstwr a fydd yn 'gyfaill hanfodol ag arbenigedd' yn cael ei neilltuo i bob clwstwr. Clywsom fod yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi ymwneud â chymorth cyffredinol, ond bod hyn 'nawr yn symud tuag at fodel mwy targededig.

Gofynasom a oedd llywodraethwyr ysgolion yn gwbl ymwybodol o'r gwasanaethau a gynigir gan Partneriaeth mewn perthynas â'r Cwricwlwm Newydd, yn enwedig mewn achosion lle nad oedd eu hysgol yn manteisio'n llawn ar y gwasanaethau mwyaf priodol iddynt. Dywedwyd wrthym y byddai Partneriaeth yn hapus i feithrin ymwybyddiaeth llywodraethwyr o'r gwasanaethau sydd ar gael.

Byddem yn croesawu eich barn ar gynnwys y llythyr hwn, ond ni fydd ymateb ysgrifenedig ffurfiol yn ofynnol y tro hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

**Y Cynghorydd Lyndon Jones**
**Cadeirydd Grŵp Cynghorwyr Craffu Partneriaeth**
Cllr.lyndon.jones@swansea.gov.uk